O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2445 (Cy. 263)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Ffair-fach, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *20 Medi 2012*

Yn dod i rym *29 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Medi 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Ffair-fach, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 21:30 o'r gloch ar 29 Medi 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A483 a elwir Heol Cennen yn Ffair-fach yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn am bellter o 50 o fetrau ar bob ochr i groesfan reilffordd Ffair-fach.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.